

Rosemary Butler AC
Y Llywydd

5 Mai 2015

Annwyl Rosemary

Gweithdrefnau cyllidebol

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cyhoeddi dau adroddiad ar y gweithdrefnau cyllidebol newydd y bydd angen eu rhoi ar waith yn dilyn y cam o ddatganoli pwerau cyllidol. Cyhoeddwyd [adroddiad rhan 1](#) ym mis Gorffennaf 2014. Yn dilyn hynny, cyhoeddwyd [adroddiad rhan 2](#) ym mis Mawrth 2015.

Er bod yr adroddiadau hyn yn bennaf yn gwneud argymhellion i'r Llywodraeth, mae'n amlwg bod gan y Cynulliad gyfrifoldeb dros sicrhau bod y gweithdrefnau newydd yn addas at y diben, a hynny gan sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer craffu effeithiol gan y Cynulliad.

Yn benodol, mae argymhelliad 14 yn adroddiad rhan 1 yn dweud:

Bydd y Pwyllgor yn edrych ar faterion capasiti'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn ystod ail ran yr ymchwiliad. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn dechrau ar waith a fydd yn ystyried y capasiti sydd ar gael i gynnal gwaith mewn perthynas â datganoli dau bŵer ariannol arall i Gymru.

Mae argymhelliad 1 yn adroddiad rhan 2 yn dweud:

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad weithio gyda'i gilydd i ddatblygu proses newydd ar gyfer y gyllideb, sy'n caniatáu ar gyfer:

cyhoeddiadau ynghylch cyllideb y DU,



proses ac iddi ddwy ran,

yr angen i roi arwydd cynnar i gyrff cyhoeddus eraill o'u cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol,

rhoi digon o amser i graffu yn y Cynulliad, a

"diogelu" unrhyw ddatganoli cyllidol pellach at y dyfodol.

Drwy gydol y broses hon, mae'r Pwyllgor wedi cydweithio'n agos â Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, i sicrhau bod gwaith y Pwyllgor yn cael ei lywio gan y Llywodraeth a bod y casgliadau a'r argymhellion wedi'u llunio er mwyn sicrhau bod anghenion y Cynulliad a'r Llywodraeth wedi'u cymryd i ystyriaeth. Roedd y ddatl a gynhaliwyd yn ddiweddar ar adroddiad rhan 2 yn dystiolaeth o'n hymdrechion i weithio ar y cyd. Fel Pwyllgor, rydym yn gobeithio y bydd y berthynas effeithiol hon gyda'r Gweinidog yn parhau.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith y mae'r Cynulliad yn ei wneud:

1. i sicrhau bod gan y Cynulliad gapasiti i wneud y gwaith pwysig hwn ar ddatganoli cyllidol yn y blynyddoedd nesaf
2. ac i sicrhau bod y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r gwaith sydd ei angen i weithredu gweithdrefnau cyllidebol newydd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Jane Hutt AC, o ystyried rôl y Llywodraeth yn y gwaith hwn. Yn ogystal, gan fod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi dangos diddordeb yn y maes hwn fel rhan o'i ymchwiliad cyfredol, rwyf hefyd yn anfon copi at David Melding AC.

Yn gywir



Jocelyn Davies

Cadeirydd

